
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
# Ymgynghoriad ar gynigion cyllideb ar gyfer 2023/24

## Tabl Cynnwys


Cefndir....3
Trafodaeth 'Beth sy'n bwysig'....3
Pwrpas....3
Methodoleg (beth wnaethon ni)....4
Arolwg....4
Ymgysylltu wyneb yn wyneb....4
Sesiynau galw heibio....4
Cyfarfod y Panel Safbwynt....5
Ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml....5
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol....5
Canfyddiadau Allweddol....5
Defnydd arfaethedig o'r cronfeydd wrth gefn....5
Cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor....6
Graff 2: Canran yr ymatebwyr (n=271) sy'n cytuno/anghytuno â'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor o 7.9% ar gyfer 2023/24




....7
Cynigion draft o arbedion – dros dro a pharhaol....7
Tabl 1: Cynigion yr oedd ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno'n arbennig â nhw....7

Tabl 2: Cynigion yr oedd ymatebwyr yr arolwg yn anghytuno'n arbennig â nhw....................................9
Themâu allweddol........................................................................................................................11
Gwneud pethau'n wahanol...........................................................................................................12
Rhestr o Atodiadau .....................................................................................................................14

## Cefndir

Bob blwyddyn, rhaid i Gaerffili, fel pob awdurdod lleol, gymeradwyo cynigion i bennu cyllideb gytbwys a chytuno ar gyfradd treth y cyngor. Mae pwysau parhaus ar y gyllideb wedi'u achosi gan nifer o ffactorau digynsail yn golygu bod Caerffili (ynghyd ag eraill) yn wynebu heriau ariannol sylweddol gyda bwlch rhagamcanol o £48 miliwn mewn cyllid dros y ddwy flynedd nesaf.

Paratôdd y Cyngor set o gynigion cyllideb drafft ar gyfer 2023/24 i'w hystyried gan y Cabinet ar 18 Chwefror 2023. Roedd tair elfen allweddol i'r cynigion:

- Defnydd untro o gronfeydd wrth gefn y cyngor yn 2023/24, sef cyfanswm o £15.051 miliwn. Mae gan Gaerffili gronfeydd wrth gefn iach ar hyn o bryd, y mwyafrif ohonyn nhw wedi'u neilltuo a'u clustnodi ar gyfer cynlluniau penodol. Fodd bynnag, mae modd defnyddio elfen o'r arian fel arian wrth gefn ar gyfer 'diwrnod glawog'.
- Arbedion parhaol a thros dro o £12.421 miliwn hefyd wedi'u nodi i helpu i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2023/24. Mae'r defnydd untro o gronfeydd wrth gefn ac arbedion dros dro yn 2023/24 yn ateb tymor byr a bydd yn prynu amser i ail-lunio gwasanaethau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol sydd o'n blaenau.
- Cynnydd arfaethedig o 7.9% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/24. Byddai hyn yn cynyddu treth Band D o £1,253.95 i £1,353.01 (cynnydd blynyddol o £99.06 neu £1.91 yr wythnos).

Cytunodd y Cabinet y dylai cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 fod yn destun cyfnod o ymgynghori cyn cyflwyno cynigion terfynol i'r Cabinet/Cygor ar 22 /23 Chwefror 2023.

Mae'r adroddiad cyllideb lawn i'w weld yma:
<https://democracy.caerphilly.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=128&MId=13905&LLL=1>

### Trafodaeth 'Beth sy'n bwysig'

Trwy raglen ymgysylltu barhaus y Cyngor, 'Trafodaeth Caerffili', mae trigolion wedi rhoi eu barn ac wedi helpu'r Cyngor i gael dealltwriaeth o'r gwasanaethau y mae trigolion yn teimlo sydd fwyaf eu hangen a'u gwerthfawrogi a lle mae trigolion yn teimlo y dylai'r Cyngor flaenoriaethu ei wariant cyllideb. Cynhaliwyd y cam ymgysylltu diweddaraf "Beth sy'n bwysig i chi?", yn ystod mis Tachwedd a dechrau Rhagfyr 2022. Roedd y mewnwelediadau o'r ymgysylltu hwn yn allweddol wrth lunio cynigion y gyllideb ddrafft 2023/24.

Ewch i www.caerffili.gov.uk/trafodaethcaerffili gael adroddiad manwl ar y cam hwn o'r ymgysylltu.

## Pwrpas

Cafood yr ymgynghoriad ei gynllunio i geisio barn trigolion a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â thair elfen allweddol cynigion drafft ar gyfer y gyllideb, sef, y defnydd o £15.051 miliwn o gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd, y cynnydd arfaethedig o 7.9% yn nhreth y cyngor a'r rhestr ddrafft o gynigion arbedion (dros dro a pharhaol) gwerth cyfanswm o £12.421 miliwn.

## Methodoleg (beth wnaethon ni)

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 19 Ionawr a 8 Chwefror 2023 a chafodd ei hyrwyddo'n eang trwy:

- Datganiad i'r wasg https://www.caerffili.gov.uk/news/news-bulletin/january-2023/have-your-say-on-budget-proposals?lang=cy-gb
- Tudalen we bwrpasol wedi'i chysylltu'n uniongyrchol o faner ar hafan gwefan y Cyngor
- Negeseuon cyfryngau digidol rheolaidd trwy gydol y cyfnod ymgynghori gan gynnwys Facebook, Twitter a NewsOnline . Anfonwyd 4 cylchlythyr e-bost NewsOnline yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae **Atodiad 4d** yn crynhoi adborth trwy gyfryngau cymdeithasol.
- Posteri a baneri yn cael eu harddangos mewn llyfrgelloedd a lleoliadau eraill y Cyngor sy'n wynebu'r cyhoedd
- E-byst wedi'u targedu at grwpiau rhanddeiliaid a chymunedau na chlywir yn aml yn y fwrdeistref

Cafodd trigolion eu hannog i roi eu barn mewn amrywiaeth o ffyrdd:

### Arolwg

Roedd arolwg ar gael ar wefan y Cyngor. Gellid cwblhau'r arolwg ar-lein neu ei argraffu os yw'n well gennych. Roedd copïau caled o'r arolwg hefyd ar gael o bob llyfrgell ar draws y fwrdeistref a gellid eu dychwelyd hefyd trwy lyfrgelloedd neu drwy'r post. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio'n benodol ar y tair prif agwedd ar gynigion y gyllideb ddrafft fel yr amlinellwyd. Ceir copi o'r arolwg yn **Atodiad 1** .

Derbyniwyd **278 o arolygon wedi'u cwblhau** erbyn y dyddiad cau.

- Dywedodd 91% eu bod yn byw yn y Fwrdeistref Sirol tra bod 4% yn staff (n=272).
- Roedd 57% yn fenywod, 42% yn ddynion a 2 unigolyn (1%) yn disgrifio eu hunain fel anneuaidd (n=246).
- Roedd 23% yn ystyried bod ganddynt anabledd (n-244)
- Roedd oedran yr ymatebwyr yn amrywio o 24 i 84 gyda 55% o ymatebwyr yn y grŵp oedran 50+ (n=233)

### Ymgysylltu wyneb yn wyneb

**Sesiynau galw heibio**

Cafodd cyfres o sesiynau galw heibio anffurfiol wyneb yn wynebeu trefnu ar gyfer trigolion mewn llyfrgelloedd ar draws y fwrdeistref. Cafodd tair sesiwn wyneb yn wyneb ar-lein hefyd eu trefnu. Cyn belled ag y bo modd, cafodd y sesiynau hyn eu cynnal ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos ac ar wahanol adegau o'r dydd, gan gynnwys yn gynnar gyda'r nos, er mwyn galluogi cymaint o bobl â phosibl i fynychu. Roedden nhw hefyd wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r adegau pan oedd y nifer fwyaf o bobl yn ymweld â llyfrgelloedd unigol.

Gweler **Atodiad 2** am yr amserlen o sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb a gynlluniwyd.

Pwrpas y sesiynau wyneb yn wyneb oedd egluro manylion cynigion drafft y gyllideb i drigolion, ateb unrhyw gwestiynau yn ymwneud â meysydd penodol o fewn y cynigion a chasglu adborth, naill ai trwy sgwrs a thrwy annog y rhai y siaradwyd â nhw i gwblhau'r arolwg (naill ai mewn copi caled) neu ar-lein.

Cyfeiriwch at **Atodiad 4a** am grynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y sgyrsiau wyneb yn wyneb mewn llyfrgelloedd.

**Cyfarfod y Panel Safbwynt**

Mae'r Panel Safbwynt yn grŵp o drigolion sy'n cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan yng ngweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori'r Cyngor. Gall unrhyw un sy'n byw yn y fwrdeistref ymuno. Gan nad ydyn nhw wedi cwrdd wyneb yn wyneb ers cyn y pandemig, cafodd aelodau'r Panel Safbwynt eu gwahodd i fynychu cyfarfod ar 2 Chwefror yn Nhŷ Penallta.

Mynychodd cyfanswm o 10 aelod o’r Panel Safbwynt a 5 o bobl ifanc o’r Fforwm Ieuenctid y cyfarfod a chawsant eu croesawu gan Arweinydd y cyngor. Mewn grwpiau ffocws, bu’r mynychwyr wedyn yn trafod a oedden nhw’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnydd arfaethedig yn treth y cyngor, y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gynigion arbedion yr oedden nhw’n cytuno neu’n anghytuno’n benodol â hwy. Yna aeth y grwpiau ymlaen i drafod sut y gallai'r Cyngor wneud pethau'n wahanol wrth symud ymlaen i alluogi'r Cyngor i flaenoriaethu'r gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn bwysicaf i drigolion. Ceir crynodeb o drafodaeth y Panel Safbwynt yn **Atodiad 4b** .

### Ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml

Cafodd unigolion, grwpiau a sefydliadau allweddol ledled y Fwrdeistref e-bost uniongyrchol yn gofyn iddyn nhw hyrwyddo a rhannu manylion yr ymgysylltu â'u cysylltiadau/aelodau. Cafodd grwpiau cymunedol lleol hefyd eu gwahodd i fynychu cyfarfod y Panel Safbwynt.

Mae **Atodiad 3** yn manylu ar y grwpiau o drigolion a rhanddeiliaid a dderbyniodd cyswllt ac yn nodi lle'r oedd ymgysylltu wyneb yn wyneb. Mae **Atodiadau 4e-g** yn cynnwys ymatebion ysgrifenedig ac e-bost a gafodd eu derbyn yn uniongyrchol gan drigolion.

**Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol**

Cafodd cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ei gynnal ar 2 Chwefror 2023. Mae **Atodiad 4c** yn rhoi crynodeb o'r drafodaeth a'r pwyntiau allweddol a gafodd eu codi.

## <u>Canfyddiadau Allweddol</u>

*Sylwer: Mae’r data ystadegol (canrannau) sy’n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymatebion i’r arolwg ac nid yr adborth ansoddol o sgyrsiau. Gall nifer yr ymatebion a gafodd eu derbyn ar gyfer cwestiynau unigol fod yn is na chyfanswm yr holiaduron wedi’u llenwi a gafodd eu dychwelyd. Mae canrannau felly yn seiliedig ar nifer yr ymatebion i gwestiynau unigol (n=nifer yr ymatebion).*


*Roedd cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn hunanddewisol. A dylai data gael ei ystyried yn y cyd-destun hwn.*

### Defnydd arfaethedig o’r cronfeydd wrth gefn

Fel sy’n cael ei ddangos yng **Ngraff 1** , roedd 62% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r un defnydd oddi ar y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd. Amlygodd adborth a gafodd ei  dderbyn trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb a sylwadau arolwg, mewn llawer o achosion, lle'r oedd trigolion yn anghytuno â'r

cynnig, mai'r rheswm am hynny oedd eu bod yn teimlo y dylai'r Cyngor fod yn defnyddio rhagor o'i gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd. Dywedodd nifer y byddai'n ddefnyddiol cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo ar ei gyfer.


**Graff 1: Canran yr ymatebwyr (n=271) sy'n cytuno/anghytuno â'r defnydd untro o gronfeydd wrth gefn y Cyngor o £15.051 miliwn ar gyfer 2023/24**




**Cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor**

Yn gyffredinol, roedd 26% yn cytuno â'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor neu'n barod i dalu mwy. Byddai 39% arall yn cefnogi lefel is o gynnydd yn nhreth y cyngor tra na fyddai 35% yn cefnogi unrhyw gynnydd yn nhreth y cyngor. Amlygir hyn yng **Ngraff 2** .

**Graff 2: Canran yr ymatebwyr (n=271) sy'n cytuno/anghytuno â'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor o 7.9% ar gyfer 2023/24**




Roedd adborth o sgyrsiau gyda thrigolion yn adlewyrchu'r farn hon. Er bod llawer yn dweud eu bod yn deall yr angen i gynyddu'r dreth y cyngor i gynnal gwasanaethau, roedd pryder y byddai unrhyw gynnydd yn nhreth y cyngor, ar hyn o bryd, yn effeithio ar y rhai lleiaf abl i fforddio cynnydd. Dywedodd nifer hefyd fod rhai cymunedau yn derbyn "llai" ac felly nid oeddent yn cytuno â'r cynnydd ar draws y fwrdeistref.

> *"Rwy'n gwybod bod yn rhaid i chi godi Treth y Cyngor, ond yr unig bobl y bydd hyn yn effeithio arnynt yw'r dosbarth gweithio sy'n ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd." ( sylw arolwg )*

**Cynigion draft o arbedion – dros dro a pharhaol**

Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr nodi hyd at dri chynnig drafft yr oeddent yn cytuno'n arbennig â hwy a thri yr oeddent yn anghytuno'n benodol â hwy.

Dywedodd nifer o bobl eu bod yn anghytuno â'r holl arbedion arfaethedig. I'r gwrthwyneb, nododd nifer nad oedd unrhyw beth ar y rhestr yn peri pryder iddyn nhw.

**Mae Tabl 1** yn crynhoi'r ymatebion i'r arolwg mewn perthynas â'r cynigion yr oedd ymatebwyr yn cytuno'n arbennig â nhw.

**Tabl 1: Cynigion yr oedd ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno'n arbennig â nhw**

| Cytuno | Cyfri |
|---|---|
| CS2 Pob gwasanaeth - gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd | 46 |
| CS1 Pob gwasanaeth - addasiad i gyflog gros - rheoli swyddi gwag | 32 |
| EE7 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Lleihau ar Dorri Gwair ( bioamrywiaeth ) trwy leihau nifer y gweithwyr asiantaeth | 28 |
| MF5 Cyllid Amrywiol Cyllideb – Dileu cyllideb Cynllun Ymrwymiad i Leihau Carbon sydd wedi dod i ben heb unrhyw gynllun newydd yn cael ei roi ar waith. | 19 |

| | |
|---|---|
| EE20 Adfywio lleoliadau Twristiaeth - Gostyngiad mewn cymhorthdal ar draws y portffolio (cyfanswm y cymhorthdal ar hyn o bryd yw £1.293m) | 17 |
| EE13 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden Incwm ychwanegol o werthu pren wedi'i dorri | 14 |
| CS10 Polisi Dileu cyllideb y Gronfa Grymuso Cymunedau . Bydd unrhyw danwariant ar gyllideb 2022/23 yn cael ei ddwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 2023/24 a'i ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin. Unwaith y bydd y tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio. | 13 |
| EE4 Dileu isadeiledd o gymhorthdal ar gyfer gwasanaeth bws Cyswllt Rheilffordd Coed Duon i Ystrad Mynach | 12 |
| CS3 Cyllideb Cyfarwyddwr - Ail-alinio cyllideb ar wahanol gyllidebau | 11 |
| EE1 Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 11 |
| CS6 Gwasanaethau Ariannol - Dileu swydd wag Gradd 5 Aseswr Budd-daliadau Tai | 8 |
| EE17 Teledu Cylch Cyfyng Gwarchod y Cyhoedd - Amnewid 9 camera 4G gydag opsiwn mwy cost effeithiol | 7 |
| ELL17 Ysgolion - rheoli cynnydd ynni o 50%. | 7 |
| EE12 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden Cynnydd yn y ffi MOT gyfredol o £10 i £45 | 6 |
| EE21 Dileu swydd Cynorthwyydd Gweinyddol Siop yn Llancaiach Fawr yn dilyn ymddeoliad | 6 |
| ELL10 Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) - Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad i'r GCA | 6 |
| CS8 Gwasanaethau Ariannol Dileu swydd wag Cynorthwyydd Cyfrifon Gradd 5 yn yr Uned Cefnogi Cyllid | 5 |
| EE14 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Adolygiad o Ffioedd a Thaliadau Hamdden | 5 |
| MF2 Cyllid Amrywiol Dim cyfraniad refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn unig | 5 |
| EE5 Isadeiledd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol - Tynnu cyllid yn ôl pan ddaw swyddi'n wag a meini prawf ROSPA heb eu bodloni | 4 |
| Gwasanaeth Cerdd ELL7 Gostyngiad o 10% yn y gyllideb | 4 |
| MF3 Cyllid Amrywiol Grant Prydau Ysgol Am Ddim Heb Ymrwymiad wedi'i drosglwyddo i'r Setliad Ariannol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn am flwyddyn yn unig a bydd yn cael ei adolygu ar gyfer 2024/25. | 4 |
| SS3 Gwasanaethau Plant - Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 4 |
| CS9 Gwasanaethau Ariannol Dileu swydd wag Cynorthwyydd Gweinyddol Gradd 5 yn Nhîm Gweinyddol Cahiers | 3 |
| EE2 Eiddo - Gostyngiad dros dro o 20% mewn cyllidebau Cynnal Adeiladau nad ydynt yn hanfodol | 3 |
| EE22 Adfywio - Gostyngiad dros dro yng nghyllideb y Gronfa Mentrau Cymunedol (CEF). | 3 |
| EE6 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Cynnydd o 20% mewn ffioedd ar gyfer caeau Chwaraeon | 3 |
| EE9 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Cau Fferm Tŷ Fry ar ôl i'r brydles ddod i ben ym mis Mawrth 2023 gyda staff yn cael eu hadleoli i Dŷ Bargoed | 3 |
| ELL1 Gostyngiad ym mhob cyllideb milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 3 |
| ELL3 Gwasanaethau Rheoli a Chefnogi - Gostyngiad mewn gwariant offer, cyfrifiaduron a TG | 3 |
| MF1 Cyllid Amrywiol - Ail-alinio cyllideb ar gyfer ffioedd Archwilio Allanol | 3 |
| MF6 Cyllid Amrywiol - Ail-alinio'r Gyllideb ar gyllideb Cynllun Gostyngiadau yn Nhreth y Cyngor (CTRS). | 3 |
| CS10 Polisi Dileu cyllideb y Gronfa Grymuso Cymunedau. Bydd unrhyw danwariant ar gyllideb 2022/23 yn cael ei ddwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 2023/24 a'i ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin. | 2 |
| CS12 Polisi Dileu cyllideb Datblygu Gynaliadwy heb ei ymrwymo | 2 |
| EE16 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Tynnu'r cymhorthdal ar gyfer Canolfan Hamdden Gymunedol Markham yn ôl | 2 |

| | |
|---|---|
| MF4 Cyllid Amrywiol- Incwm buddsoddi ychwanegol oherwydd codiadau yng Nghyfradd Sylfaenol Banc Lloegr. Mae hyn ar gyfer 2023/24 yn unig ar hyn o bryd oherwydd anweddolrwydd y Gyfradd Sylfaenol a bydd yn cael ei hadolygu ar gyfer 2024/25. | 2 |
| SS1 Plant ag Anableddau - Alinio'r gyllideb i adlewyrchu'r galw | 2 |
| SS9 Gwasanaethau Oedolion Alinio cyllideb - lleoliadau Cysylltu Bywydau | 2 |
| CS11 Polisi Dileu cyllideb prosiectau cymunedol heb ei ymrwymo | 1 |
| CS13 Polisi Dileu cyllideb Cymorth Dechnegol heb ei ymrwymo | 1 |
| CS14 Ail-alinio cyllideb Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) y Sector Gwirfoddol | 1 |
| CS4 Cyfreithiol a Llywodraethu- Incwm CLG o drefniadau cydweithredol | 1 |
| EE11 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Incwm Ychwanegol o gyfleusterau Tenis newydd | 1 |
| EE15 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Gostyngiad o 50% yn y cymhorthdal ar gyfer costau Gofalwyr mewn Canolfannau Cymunedol (rydym yn ariannu 11 awr ar hyn o bryd) | 1 |
| EE19 Diogelu'r Cyhoedd - Cynnydd mewn Incwm Seremonïau mewn Cofrestryddion - Arbedion dros dro yn unig gan fod incwm ychwanegol oherwydd ôl-groniad yn dilyn Covid-19 | 1 |
| EE3 Isadeiledd - Gostyngiad dros dro yn y gyllideb Cynnal a Chadw Priffyrdd | 1 |
| EE8 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Gostyngiad dros dro yn y Gyllideb Cynnal a Chadw Mynwentydd | 1 |
| ELL11 Cronfa Gwariant Uniongyrchol Arall Cysylltiedig ag Ysgolion - 50% o gyfraniad Atgyweirio a Chynnal a Chadw i ysgolion o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023/24 yn unig | 1 |
| ELL15 Gwasanaeth Ieuenctid (dros dro) | 1 |
| ELL16 Llyfrgelloedd - Gostyngiad o 20% yn y Gronfa Lyfrau | 1 |
| ELL8 Ail-alinio Cyllideb Dysgu, Addysg a Chynhwysiant - cyllidebau CBAC a Thanysgrifiadau | 1 |
| SS10 Cymorth Busnes - Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 1 |
| SS7 Gwasanaethau Oedolion - Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 1 |
| | **328** |

Yn yr un modd, **mae Tabl 2** yn amlygu'r ymatebion i'r arolwg mewn perthynas â'r cynigion y mae trigolion yn anghytuno â nhw.

**Tabl 2: Cynigion yr oedd ymatebwyr yr arolwg yn anghytuno'n arbennig â nhw**

| **Anghytuno** | **Cyfri** |
|---|---|
| EE15 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Gostyngiad o 50% yn y cymhorthdal ar gyfer costau Gofalwyr mewn Canolfannau Cymunedol (rydym yn ariannu 11 awr ar hyn o bryd) | 52 |
| EE3 Isadeiledd - Gostyngiad dros dro yn y gyllideb Cynnal a Chadw Priffyrdd | 38 |
| ELL17 Ysgolion - rheoli cynnydd ynni o 50%. | 30 |
| EE5 Isadeiledd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol - Tynnu cyllid yn ôl pan ddaw swyddi'n wag a meini prawf ROSPA heb eu bodloni | 25 |
| ELL16 Llyfrgelloedd - Gostyngiad o 20% yn y Gronfa Lyfrau | 18 |
| EE14 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Adolygiad o Ffioedd a Thaliadau Hamdden | 17 |
| SS1 Plant ag Anableddau - Ail alinio'r gyllideb i adlewyrchu'r galw | 17 |
| EE6 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Cynnydd o 20% mewn ffioedd ar gyfer caeau Chwaraeon | 14 |
| EE12 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Cynnydd yn y ffi MOT gyfredol o £10 i £45 | 12 |
| EE4 Isadeiledd - Tynnu cymhorthdal ar gyfer gwasanaeth bws Cyswllt Rheilffordd Coed Duon i Ystrad Mynach yn ôl | 12 |

| | |
|---|---|
| ELL7 Gwasanaeth Cerdd - Gostyngiad o 10% yn y gyllideb | 10 |
| EE16 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Tynnu'r cymhorthdal ar gyfer Canolfan Hamdden Gymunedol Markham yn ôl | 9 |
| CS10 Polisi Dileu cyllideb y Gronfa Grymuso Cymunedau. Bydd unrhyw danwariant ar gyllideb 2022/23 yn cael ei ddwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 2023/24 a'i ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin. | 8 |
| MF6 Ail-alinio Cyllideb Cyllid Amrywiol ar gyllideb Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (CTRS). | 8 |
| EE20 Lleoliadau Twristiaeth Adfywio - Gostyngiad mewn cymhorthdal ar draws y portffolio (cyfanswm y cymhorthdal ar hyn o bryd yw £1.293miliwn) | 7 |
| SS9 Ail-alinio Cyllideb Gwasanaethau Oedolion - lleoliadau Bywyd a Rennir | 7 |
| EE7 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Lleihau gwaith Torri Gwair ( bioamrywiaeth ) trwy leihau nifer y gweithwyr asiantaeth | 6 |
| ELL15 Gwasanaeth Ieuenctid (dros dro) | 6 |
| ELL6 SENCOM Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad | 5 |
| MF5 Cyllid Amrywiol – Tynnu Cyllideb Cynllun Ymrwymiad i Leihau Carbon sydd wedi dod i ben heb unrhyw gynllun newydd yn cael ei roi ar waith. | 5 |
| SS2 Ail-alinio Gwasanaethau Oedolion - Incwm gofal dibreswyl gan ddefnyddwyr gwasanaeth | 5 |
| EE2 Eiddo - Gostyngiad dros dro o 20% mewn cyllidebau Cynnal Adeiladau nad ydynt yn hanfodol | 4 |
| EE8 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Gostyngiad dros dro yn y Gyllideb Cynnal a Chadw Mynwentydd | 4 |
| ELL11 Cronfa Gwariant Uniongyrchol Arall Cysylltiedig ag Ysgolion 50% o gyfraniad Atgyweirio a Chynnal a Chadw i ysgolion o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023/24 yn unig | 4 |
| ELL13 Gwasanaeth Seicoleg - Rheoli swyddi gwag oherwydd trosiant staff | 4 |
| ELL5 Ailgynllunio cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer asesiadau Iechyd a Diogelwch | 4 |
| MF3 Cyllid Amrywiol Grant Prydau Ysgol Am Ddim Heb Ymrwymiad wedi'i drosglwyddo i'r Setliad Ariannol mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn am flwyddyn yn unig a bydd yn cael ei adolygu ar gyfer 2024/25. | 4 |
| CS6 Gwasanaethau Ariannol - Dileu swydd wag Gradd 5 Aseswr Budd-daliadau Tai | 3 |
| EE17 Teledu Cylch Cyfyng Gwarchod y Cyhoedd - Amnewid 9 camera 4G gydag opsiwn mwy cost effeithiol | 3 |
| ELL3 Gwasanaethau Rheoli a Chefnogi - Gostyngiad mewn gwariant offer, cyfrifiaduron a TG | 3 |
| SS4 Ail-alinio Cyllideb Gwasanaethau Plant - recriwtio a chadw gofal maeth | 3 |
| CS14 Ail-alinio cyllideb Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) y Sector Gwirfoddol | 2 |
| CS8 Gwasanaethau Ariannol- Dileu swydd wag Cynorthwyydd Cyfrifon Gradd 5 yn yr Uned Cefnogi Cyllid | 2 |
| EE1 Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 2 |
| EE11 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Incwm Ychwanegol o gyfleusterau Tenis newydd | 2 |
| EE21 Adfywio - Dileu swydd Cynorthwyydd Gweinyddol Siop yn Llancaiach Fawr yn dilyn ymddeoliad | 2 |
| ELL10 Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) - Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad i'r GCA | 2 |
| ELL2 LMS Gostyngiad Wrth Gefn yn y Gyllideb Wrth Gefn Rheoli Ysgolion yn Lleol (LMS). | 2 |
| ELL4 Gwasanaethau Cefnogi ac Adnoddau - Dileu swydd ran-amser wag | 2 |
| SS3 Gwasanaethau Plant - Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 2 |
| CS1 Pob gwasanaeth - addasiad i gyflog gros - rheoli swyddi gwag | 1 |
| CS11 Polisi Dileu cyllideb prosiectau cymunedol heb ei ymrwymo | 1 |
| CS12 Polisi Dileu cyllideb Datblygu Gynaliadwy heb ei ymrwymo | 1 |
| CS2 Pob gwasanaeth - gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd | 1 |

| | |
|---|---|
| EE13 Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden - Incwm ychwanegol o werthu pren wedi'i dorri | 1 |
| EE22 Adfywio - Gostyngiad dros dro yng nghyllideb y Gronfa Mentrau Cymunedol (CEF). | 1 |
| ELL1 Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 1 |
| ELL14 Tîm Canolog y Blynyddoedd Cynnar - Rhai swyddi presennol i'w hariannu drwy grantiau yn 2023/24 | 1 |
| ELL8 Ail-alinio cyllideb Dysgu, Addysg a Chynhwysiant - cyllidebau CBAC a Thanysgrifiadau | 1 |
| MF1 Cyllid Amrywiol – Ail-alinio cyllideb ar gyfer ffioedd Archwilio Allanol | 1 |
| MF2 Cyllid Amrywiol - Dim cyfraniad refeniw i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn unig | 1 |
| SS5 Ail-alinio cyllideb Gwasanaethau Plant Adlinio - cyllidebau atal | 1 |
| SS6 Gwasanaethau Plant - Lleihad yn y cyfraniad i swydd Gofal Iechyd Parhaus (CIC) rhanbarthol | 1 |
| SS7 Gwasanaethau Oedolion - Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu modelau gweithio hyblyg newydd | 1 |
| SS8 Ail-alinio cyllideb Gwasanaethau Oedolion - lleoliadau tymor byr | 1 |
| | **380** |

## Themâu allweddol

Trwy ddadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg a sgyrsiau wyneb yn wyneb, daeth y themâu allweddol canlynol i'r amlwg.

Meysydd o’r cynigion yr oedd ymatebwyr yn cytuno’n arbennig â nhw:

- Gostyngiad mewn cyllidebau milltiredd i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio
- Dileu swyddi gwag a rheoli swyddi gwag ar draws y sefydliad
- Torri gwair i wella bioamrywiaeth (lle'r oedd anghytundeb â’r cynnig hwn roedd hynny oherwydd pryder ynghylch ymddangosiad y fwrdeistref)
- Ail-alinio cyllideb a thoriadau i grantiau/cymorthdaliadau na fydd yn cael unrhyw effaith ar drigolion (e.e. cynllun Ymrwymiad Lleihau Carbon, meysydd lle gallai cyllid gael ei ddarparu o ffynonellau eraill)
- Cynhyrchu incwm drwy dorri coed, cynnydd mewn taliadau MOT ac ati.
- Gallai gostyngiad yn y cymhorthdal twristiaeth, lleoliadau gynhyrchu incwm trwy bresenoldeb ymwelwyr

Roedd y cynigion yn anghytuno’n arbennig â:

- Ystyried bod gostyngiad dros dro yn y gyllideb cynnal a chadw priffyrdd yn rhywbeth tymor byr, yn enwedig o ystyried cyflwr gwael ffyrdd yn dilyn tywydd garw diweddar.
- Ystyried bod gostyngiad i gymorth y sector gwirfoddol - ar adeg pan ddisgwylir i elusennau a'r sector gwirfoddol gefnogi mwy o bobl yn wrthgynhyrchiol. Yn benodol,
    - roedd ymateb cryf yn yr arolwg i'r gostyngiad o 50% yn y cymorth i ofalwyr ar gyfer canolfannau cymunedol a dileu'r cymhorthdal i ganolfan gymunedol Markham. Cafodd trafodaeth bellach gyda chanolfannau cymunedol unigol ei hawgrymu gan na fyddai'r effaith yr un fath ar draws yr holl ganolfannau.
    - toriadau i grantiau cymunedol, yn enwedig y Gronfa Grymuso Gymunedol (cyn iddi gael cyfle i ennill ei phlwyf)
- Cafodd ei ystyried bod unrhyw doriadau i wasanaethau cymdeithasol a fydd yn effeithio ar y trigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn annerbyniol. Mae'r farn hon yn adlewyrchu'n

gryf y rhai a gafodd eu mynegi fel rhan o'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gynharach. Roedd toriadau i wasanaethau i blant ag anableddau (a thoriadau i SENCOM) yn bryder arbennig. Teimlir bod y ddarpariaeth bresennol yn annigonol a chwestiynir bod diffyg galw am y gwasanaethau hyn. Mae llawer wedi methu â chael mynediad at wasanaethau oherwydd gostyngiad yn y ddarpariaeth yn ystod y pandemig ac roedd galw anhysbys am wasanaethau wrth symud ymlaen.

"Gwasanaethau plant - ni ddylid eu torri. Mae gwasanaethau plant yn ei chael hi'n anodd fel y mae. Does dim modd eu cefnogi'n briodol heb yr adnoddau cywir" (sylw o'r arolwg)

- Nid oedd toriadau a fydd yn effeithio ar ysgolion ac addysg h.y ysgolion i reoli 50% o gostau ynni uwch, cael gwared ar hebryngwyr croesfannau ysgol wedi'u cefnogi. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd drwy ymgysylltu blaenorol, lle dywedodd trigolion wrthym y dylem flaenoriaethu addysg.
- Llyfrgelloedd - mae trigolion yn teimlo bod llyfrgelloedd yn rhan hanfodol o'r gymuned ac y gellid eu defnyddio'n amlach. Ystyriwyd bod gostyngiad yn y gronfa lyfrau yn dderbyniol am flwyddyn yn unig ond byddai rhagor o effaith yn y tymor hwy ar y rhai sydd angen y gwasanaeth llyfrgell.
- Cafodd ei ystyried bod gwasanaethau ieuenctid yn bwysig o ran helpu i gefnogi pobl ifanc yn awr a gosod sylfeini ar gyfer y dyfodol. Gall gwasanaethau ieuenctid helpu i fynd i'r afael â materion ehangach fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned.
- Er bod creu incwm yn cael ei ystyried yn ffordd gadarnhaol ymlaen, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch creu incwm drwy godi taliadau uwch am wasanaethau y mae trigolion a'r gymuned yn eu defnyddio (e.e. adolygiad o ffioedd chwaraeon a hamdden, cynnydd mewn ffioedd meysydd chwaraeon)

Roedd ymateb cymysg i ddileu cymhorthdal ar gyfer y gwasanaeth cyswllt rheilffordd. Mae trigolion yn teimlo fod lefel y cymhorthdal yn rhy uchel i'w chynnal, ond cafodd ei awgrymu y gallai llwybrau amgen fod yn fwy hyfyw (yr orsaf drenau agosaf at y Coed Duon yw Pengam ) ac roedd awgrym y gallai'r wasanaeth gael ei agor i ddefnyddwyr nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd.

Roedd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, yn gyffredinol, ac yn fwy penodol, diffyg integreiddio rhwng trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem i lawer o drigolion y siaradwyd â nhw. Roedd hyn yn bryder arbennig o ran galluogi'r rhai nad ydynt yn gyrru/na allant fforddio car i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.

## Gwneud pethau'n wahanol

Cafodd y themâu canlynol eu hamlygu trwy sgyrsiau gyda thrigolion:

- Rhesymoli asedau - trwy werthu adeiladau nad oes eu hangen arnom ni mwyach. Teimlai llawer y dylen ni fod yn sicrhau bod Tŷ Penallta yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac edrych ar werthu adeiladau llai eraill ar draws y fwrdeistref.
- Bydd effeithlonrwydd ynni yn helpu i leihau costau e.e sicrhau bod adeiladau'n cael eu defnyddio'n llawn. Manteisio ar y ffordd hyblyg newydd o weithio i gau adeiladau hŷn, llai effeithlon.
- Rhedeg y Cyngor fel busnes – yn effeithlon – cael gwared ar fiwrocratiaeth, edrych ar y prosesau sydd ar waith ac ystyried sut y mae modd eu newid i ddarparu gwasanaeth gwell yn fwy effeithlon. Gall lleihau lefelau staffio yn ormodol effeithio ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu - byddai'n well gan drigolion weld staff rheng flaen yn cael eu recriwtio dros swyddi uwch wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol.

- Dylid ymchwilio ymhellach i gynhyrchu incwm, yn enwedig os gellir gwneud hyn heb godi mwy ar drigolion am wasanaethau.
- Mae angen cymryd trosolwg strategol o wasanaethau, sut y cânt eu darparu a sut maen nhw’n gweithio gyda’i gilydd yn hytrach na thoriadau ‘salami’.
- Dylai sicrhau gwerth cymdeithasol ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau fod yn ganolog i bopeth a wnawn.
- Gwella sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â thrigolion. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r sesiynau wyneb yn wyneb. Roedd trigolion yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwell dealltwriaeth o'r cynigion a rhoi eu barn. Gallai'r Cyngor gyfathrebu'n fwy effeithiol am yr hyn y mae'n ei ddarparu - mewn ffordd y gall trigolion ei deall ac nid ‘iaith cyngor'.

# Rhestr o Atodiadau

**Atodiad 1: Arolwg**

**Atodiad 2: Ymgysylltu wyneb yn wyneb**

**Atodiad 3: Grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml**

**Atodiad 4a: Sylwadau o sgyrsiau wyneb yn wyneb**

**Atodiad 4b: Nodiadau cyfarfod y Panel Safbwynt**

**Atodiad 4c: Nodiadau Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol**

**Atodiad 4d: Adborth cyfryngau cymdeithasol**

**Atodiad 4e: Ymateb Cyngor Cymuned Gelligaer**

**Atodiad 4f: Ymateb Canolfan Gymunedol Llanbradach**

**Atodiad 4g: Sylwadau ychwanegol a gafodd eu derbyn trwy e-bost neu ysgrifenedig**